


## Beth ydy Hawliad?

### Llyfryn a ffurflen i blant a phobl ifanc



**Cysylltwch â ni yn TAAAC os oes gennych unrhyw gwestiynau ar ôl i chi ddarllen y llyfryn hwn:**

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â'r tribiwnlys am fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon.



Llinell  
Gymorth:  
0300 025 9800



Ebost:  
tribunalenquiries  
@cymru.gsi.gov.  
uk



Gwefan:  
[www.taaac.llyw.cymru](http://www.taaac.llyw.cymru)



Post:  
TAAAC Adeiliadau  
Llywodraeth  
LD1 5HA

# Mae'r llyfryn hwn yn dweud:

<b>Beth ydy hawliad</b>	<b>1</b>
<b>Am beth y gallwch wneud hawliad</b>	<b>5</b>
<b>Terfynau amser pwysig</b>	<b>18</b>
<b>Pwy sydd yn gallu helpu</b>	<b>19</b>
<b>Beth sydd yn digwydd nesaf</b>	<b>22</b>
<b>Ffurflen dweud wrthym os oes gennych gyfaill achos – gallwch ddefnyddio'r ffurflen yng nghefn y llyfryn i roi enw a chyfeiriad eich cyfaill achos os oes gennych un.</b>	


## Dewis iaith

Mae'r tribiwnlys yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Mae'r tribiwnlys hefyd yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Gallwch chi gyflwyno ffurflenni, dogfennau a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r tribiwnlys yn Gymraeg neu'n Saesneg.

## Beth ydy hawliad?

Hawliad o wahaniaethu ar sail anabledd ydy pan fyddwch yn dweud wrthyn ni eich bod wedi cael eich trin yn annheg yn yr ysgol. Ac mae'r driniaeth honno oherwydd eich anabledd neu am reswm arall i wneud â'ch anabledd




\* mae'r gyfraith yn galw hyn yn driniaeth llai ffafriol neu anffafriol.

Mae modd gwneud hawliad o wahaniaethu ar sail anabledd hefyd pan fyddwch yn dweud wrthyn ni am reol ysgol neu am ffordd o wneud pethau yn yr ysgol yr ydych chi'n meddwl sydd yn annheg i ddisgyblion anabl,

\* mae'r gyfraith yn dweud bod rheol neu bolisi sydd yn annheg i ddisgybl anabl neu i grŵp arbennig o ddisgyblion anabl o'i gymharu â disgyblion heb fod yn anabl, yn wahaniaethu.

Er enghraifft mae modd gwneud hawliad os nad ydych yn cael mynd ar drip ysgol oherwydd eich bod yn defnyddio cadair olwyn.



I wneud hawliad rhaid i chi ddweud wrthyn ni:

- \* beth ddigwyddodd,
- \* y dyddiadau y gwnaeth y gwahaniaethu ddigwydd,
- \* pam eich bod yn meddwl bod y driniaeth yn annheg,
- \* beth sydd gan y driniaeth l'w gwneud gydag anabledd – eich anabledd chi neu anabledd person arall,
- \* beth ydych chi eisiau l ni ei wneud.

Mae eich rhieni yn gallu gwneud hawliad hefyd. Felly gall hawliad hefyd fod pan fydd eich rhieni yn dweud wrthyn ni eu bod yn meddwl eich bod chi wedi derbyn triniaeth waeth neu llai ffafriol yn yr ysgol oherwydd anabledd.




**Holwch ni yn TAAAC**, os nad ydych chi yn sicr ar ôl darllen y llyfryn hwn **beth** ydy hawliad, **sut** i wneud hawliad a'r **terfyn amser**.

**Tribiwnlys ydy TAAAC.** Mae pobl yn mynd i dribiwnlys os ydyn nhw'n anhapus am rai penderfyniadau sydd yn effeithio arnyn nhw.



Mae tribiwnlys yn debyg i ddyfarnwr. Dydyn ni ddim yn cymryd ochrau ond rydyn ni'n gwneud yn siŵr bod rheolau pwysig o'r enw deddfau, yn cael eu dilyn yn gywir pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud.


Mae deddfau yn dweud pethau fel na ddylai ysgolion drin plentyn yn annheg oherwydd ei anabledd



Os ydyn ni'n darganfod nad ydy'r ddeddf yn cael ei dilyn yn gywir yna gall y tribiwnlys wneud gorchymyn i newid pethau neu i gywiro pethau.

**Er enghraifft, gall gorchymyn Tribiwnlys fod am:**

- \* cywiro pethau os ydyn ni'n darganfod eich bod wedi cael eich trin yn annheg oherwydd anabledd,
- \* dydyn ni ddim yn gallu gorchymyn iawndal,
- \* byddwn yn dweud wrthyich chi os nad ydyn ni'n cytuno gyda'ch hawliad. Caiff yr hawliad ei wrthod ac ni fydd gorchymyn tribiwnlys yn cael ei wneud





## Geiriau i helpu.

### Anabledd

Mae'r gyfraith yn dweud bod gan berson **anabledd** os oes ganddynt **nam corfforol** neu **feddyliol** sydd yn cael effaith sylweddol a hir dymor ar allu'r person hwnnw i wneud pethau arferol o ddydd i ddydd.

- **namau corfforol** – mae hyn yn golygu rhywbeth sydd yn effeithio ar y corff. Mae rhai enghreifftiau yn cynnwys epilepsi neu ganser neu rhywbeth sydd yn effeithio ar eich gallu i glywed neu gweld neu i ddefnyddio eich breichiau neu eich coesau,
- **nam meddyliol** – mae hwn yn golygu rhywbeth sydd yn effeithio ar y meddwl. Mae rhai enghreifftiau yn cynnwys awtistiaeth, anableddau dysgu neu anawsterau emosiynol neu ymddygiad,
- **anfantais sylweddol** – mae hyn yn golygu rhywbeth sydd ddim yn fach neu yn ddibwys,
- **hir dymor** – mae hyn yn golygu ei fod yn mynd i effeithio arnoch chi am 12 mis o leiaf neu am hirach, neu mae'n debygol o wneud hynny.

## Gwahaniaethu ar sail Anabledd

- **gwahaniaethu ar sail anabledd** ydy pan mae person yn derbyn triniaeth llai ffafriol neu anffafriol (triniaeth waeth neu annheg) na pherson arall a hynny oherwydd ei anabledd,
- **gwahaniaethu ar sail anabledd** hefyd ydy pan mae rheol neu ffordd o wneud pethau wedi cael eu rhoi yn eu lle ac sydd yn annheg i ddisgyblion anabl o'i gymharu â disgyblion heb fod yn anabl

## Awdurdod Lleol


Mae'r **Awdurdod Lleol** yn rhan o'r llywodraeth. Mae'r bobl sydd yn gweithio i'r Awdurdod Lleol yn gofalu am lawer o wasanaethau, fel eich ysgol

## Ysgol a gynhelir

Mae hyn yn golygu ysgol neu feithrinfa y mae'r Awdurdod Lleol yn gofalu ac yn talu amdani. Fel rheol corff cyfrifol **Ysgol a gynhelir** ydy Llywodraethwyr yr Ysgol.







## Deddf Cydraddoldeb

### Y Ddeddf Cydraddoldeb ydy'r gyfraith

- Mae'r ddeddf yn dweud na ddylai ysgolion wahaniaethu yn erbyn, aflonyddu nac erlid disgyblion,
- mae'r ddeddf yn cynnwys disgyblion yn yr ysgol, disgyblion all fynychu'r ysgol ac mewn rhai achosion, disgyblion oedd yn arfer mynd i'r ysgol.



# Yn erbyn pwy y mae'r hawliad?

**Bydd hawliad bob amser yn erbyn y Corff Cyfrifol**

- **y Corff Cyfrifol ydy'r corff sydd yn gyfrifol am yr ysgol,**
- **maen nhw hefyd yn gyfrifol am sicrhau nad ydy gwahaniaethu ar sail anabledd yn digwydd yn yr ysgol,**
- **yn dibynnu ar y math o ysgol yr ydych yn mynd iddi neu eisiau mynd iddi ac yn dibynnu am beth y mae eich hawliad, y Corff Cyfrifol fydd yr Awdurdod Lleol, llywodraethwyr yr ysgol neu berchennog yr ysgol,**
- **nid oes modd enwi'r pennaeth nac athrawon unigol fel Corff Cyfrifol.**

# Mathau o Wahaniaethu

Mae'r gyfraith yn golygu bod pobl ag anabledd neu bobl oedd ag anabledd yn cael eu diogelu rhag gwahanol fathau o wahaniaethu:

## 1. Gwahaniaethu ar sail anabledd uniongyrchol

- lle mae disgybl yn derbyn triniaeth llai ffafriol (gwaeth) na disgybl arall oherwydd anabledd,
- lle mae disgybl yn derbyn triniaeth llai ffafriol (gwaeth) oherwydd cyfeillgarwch neu berthynas gyda disgybl anabl neu lle mae pobl wedi meddwl yn anghywir bod ganddyn nhw anabledd.

## 2. Gwahaniaethu anuniongyrchol

- lle mae rheol, polisi neu arfer yn berthnasol i bob disgybl neu i grŵp neilltuol o ddisgyblion, ond yn gosod disgyblion ag anabledd neilltuol mewn anfantais (annheg) o'i gymharu â disgyblion heb fod yn anabl,
- a lle nad ydy hi'n bosibl cyfiawnhau'r rheol, polisi neu arfer



### **3. Gwahaniaethu'n codi o anabledd**

- lle mae disgybl anabl yn derbyn triniaeth anffafriol (annheg) am reswm yn berthynol i'w anabledd a lle nad oes modd cyfiawnhau'r driniaeth,
- a lle nad oes modd dangos nad oedd ysgol awdurdod lleol yn gwybod am anabledd y disgybl a lle nad oedd disgwyl iddyn nhw wybod.

### **4. Aflonyddu'n berthynol i anabledd**

- lle mae disgybl yn derbyn ymddygiad dieisiau yn berthynol i anabledd ac mae'r ymddygiad yn effeithio ar urddas person (yn amharchu'r person hwnnw), neu
- lle mae'r ymddygiad yn elyniaethus, diraddiol, bychanol neu dramgwyddus (anghyfeillgar, anghwrtais neu niweidiol) i'r disgybl.

### **5. Erledigaeth yn berthynol i anabledd**

- lle mae disgybl yn derbyn triniaeth llai ffafriol (annheg) oherwydd eu bod yn gweithredu neu wedi gweithredu yn erbyn gwahaniaethu o dan y Ddeddf Cydraddoldeb; neu
- lle maen nhw yn cael eu trin yn llai ffafriol (annheg) oherwydd eu bod yn cefnogi person sydd yn gweithredu yn erbyn gwahaniaethu dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

*Weithiau mae modd cyfiawnhau gwahaniaethu.*

- er bod disgybl wedi cael ei drin yn anffarfiol (annheg) neu efallai dan anfantais, mae'r gwahaniaethu yn gallu bod yn gyfreithiol (caniatu) os ydy'r ysgol neu'r awdurdod lleol yn gallu dangos bod **cyfiawnhad** dros hynny
- mae **cyfiawnhau** yn golygu gallu dangos bod rheswm cyfreithiol a gwirioneddol dros y driniaeth a'i fod yn ymateb teg a chytbwys a rhesymol,
- yr unig fathau o wahaniaethu y mae modd eu **cyfiawnhau** ydy gwahaniaethu anuniongyrchol a gwahaniaethu yn codi o anabledd.

**Rhaid i Ysgolion ac Awdurdodau Lleol  
wneud addasiadau rhesymol.**

- mae'r gyfraith yn dweud bod rhaid i ysgolion ac awdurdodau lleol gymryd **camau rhesymol** i sicrhau nad ydy disgyblion anabl dan anfantais sylweddol o'i gymharu â disgyblion heb fod yn anabl,
- mae hyn yn golygu cymryd camau rhesymol i ddod dros rhwystrau allai effeithio ar ddisgyblion gyda gwahanol fathau o anabledau,
- mae'r dyletswydd **addasiadau rhesymol** yn berthnasol i ddisgyblion yn yr ysgol, disgyblion sydd eisiau mynychu'r ysgol ac mewn rhai achosion disgyblion oedd yn arfer mynd i'r ysgol,
- enghraifft o **addasiad rhesymol** ydy'r ysgol yn rhoi gwaith mewn print bras i ddisgybl sydd yn methu gweld yn dda iawn.

## Plant heb anabledd

Mae'r gyfraith hefyd yn amddiffyn plant heb anableddau yn erbyn rhai mathau o wahaniaethu, sef:

- **gwahaniaethu uniongyrchol yn seiliedig ar gysylltiad** - lle mae disgybl yn cael ei drin yn llai ffafriol oherwydd cyfeillgarwch neu berthynas gyda pherson arall sydd ag anabledd,
- **gwahaniaethu uniongyrchol yn seiliedig ar ganfyddiad** – lle mae disgybl yn cael ei drin yn llai ffafriol oherwydd eu bod yn cael eu trin trwy gamgymeriad fel pe bai ganddyn nhw anabledd,
- **aflonyddwch yn berthynol i anabledd** – lle mae disgybl yn derbyn ymddygiad dieisiau yn berthynol i anabledd gyda'r bwriad neu effaith o dorri ar urddas person. Neu lle mae'r ymddygiad dieisiau yn elyniaethus, diraddiol, bychanol neu dramgwyddus i'r disgybl,
- **erledigaeth yn berthynol i anabledd** – lle mae disgybl yn cael ei drin yn llai ffafriol oherwydd eu bod yn gweithredu yn erbyn gwahaniaethu dan y Ddeddf Cydraddoldeb, neu yn bwriadu gwneud hynny. Neu yn cael eu trin yn llai ffafriol oherwydd eu bod yn cefnogi person sydd yn gweithredu yn erbyn gwahaniaethu o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.



Comisiwn  
**Cydraddoldeb a  
Hawliau Dynol**

**Equality and  
Human Rights**  
Commission

Efallai y bydd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (CCHD) yn gallu eich helpu os oes gennych unrhyw gwestiynau am wahaniaethu ar sail anabledd.

Llinell Gymorth CCHD Cymru: 0845 604 8810

Ffôn testun Cymru: 0845 604 8820

Ffacs Cymru: 0845 604 8830

Gwefan: [www.equalityhumanrights.com](http://www.equalityhumanrights.com)

E-bost: [waleshelpline@equalityhumanrights.com](mailto:waleshelpline@equalityhumanrights.com)



## Am beth y gallwch wneud hawliad.

Rowch gylch o amgylch Ie neu Na os ydych yn meddwl bod gwahaniaethu ar sail anabledd, aflonyddwch neu erledigaeth yn yr ysgol am:

Derbyniadau ysgol

Ie  
Na

Addysg yn cynnwys mynediad at unrhyw fudd-dal, gwasanaeth neu gyfleuster (mae hyn yn golygu pob agwedd ar fywyd ysgol yn cynnwys beth sy'n digwydd yn ystod egwyl, cinio a thripiâu ysgol a gweithgareddau a chlybiau ar ôl ysgol)

Ie  
Na


Gwaharddiadau

Ie  
Na

Os ydych wedi dewis Ie i unrhyw un o'r uchod, efallai y gallwch wneud hawliad i TAAAC.

Dydy TAAAC ddim yn delio gyda phob math o hawliad, cysylltwch gyda'ch ysgol neu awdurdod lleol os ydy eich hawliad am:

- penderfyniadau derbyniadau ysgol â gynhelir,
- gwaharddiadau parhaol o ysgol â gynhelir.



### Derbyniadau ysgol, mae hyn yn golygu:

- trefniadau sydd yn cael eu gwneud i benderfynu pwy sydd yn cael cynnig derbyniad fel disgybl, telerau gwneud cynnig i ddisgybl,
- peidio â derbyn person fel disgybl.

### Addysg, mae hyn yn golygu:

- y modd y mae addysg yn cael ei ddarparu,
- y modd y mae disgyblion yn cael mynediad at unrhwy fudd-dal, cyfleuster neu wasanaeth yn yr ysgol,
- peidio â darparu addysg i ddisgybl,
- peidio â darparu mynediad i ddisgybl at fudd-dal, cyfleuster neu wasanaeth,
- gosod y disgybl mewn unrhyw anfantais arall

### Gwaharddiadau, mae hyn yn golygu:

- gwaharddiadau parhaol neu dymor sefydlog,
- gwaharddiadau amser cinio.

## Terfynau amser pwysig!



Mae terfynau amser ar gyfer gwneud hawliad.

Mae gennych 6 mis i wneud hawliad.

Mae'r 6 mis yn cychwyn o'r dyddiad yr ydych yn dweud bod y gwahaniaethu ar sail anabledd wedi digwydd.

Rhaid i'ch cais hawliad gael ei dderbyn yn swyddfa TAAAC o fewn 6 mis o'r amser yr ydych yn dweud bod y gwahaniaethu ar sail anabledd wedi digwydd.



Efallai y cewch ragor o amser os ydych yn defnyddio gwasanaeth cymodi CCHD. Ond cysylltwch â ni am hyn cyn diwedd y cyfnod o 6 mis.



## Pwy sydd yn gallu helpu?

**Pobl** fydd yn gallu eich helpu gyda'ch Hawliad:



### Cyfaill Achos

**Cyfaill achos** ydy person sydd yn eich adnabod yn dda. Gall fod yn rhywun yn eich teulu neu rhywun fel athro/athrawes neu weithiwr cymdeithasol.

Gallwch wneud hawliad eich hyn neu gyda help cyfaill achos. Gall cyfaill achos eich helpu a'ch cefnogi chi mewn sawl ffordd, trwy:

- \* osgoi neu ddatrys anghydfod gyda'r awdurdod lleol gan ddefnyddio trefniadau datrys anghydfod,
- \* trafod gyda chi a ddylech wneud hawliad ai peidio,
- \* llenwi'r Cais Hawliad a'i anfon at TAAAC,
- \* derbyn gwybodaeth am yr hawliad,
- \* paratoi datganiad achos,
- \* sicrhau bod eich dymuniadau a'ch barn yn cael ei gynrychioli mewn gwrandawiadau,
- \* eich cynghori ar ddatblygiad a chanlyniad hawliad.

Bydd angen i'ch **Cyfaill achos** ddarllen ein llyfryn:  
**Gwybodaeth i Rieni a Cyfeillion Achos**



## Eiriolydd

Mae Eiriolydd yn rhywun yr ydych yn teimlo'n gyfforddus i siarad gyda nhw ac a fydd yn gwranddo arnoch chi a dweud wrthyn ni neu yn eich helpu chi i ddweud wrthyn ni sut yr ydych yn teimlo am yr hawliad a pha newidiadau yr ydych eisiau eu gwneud. Efallai y byddan nhw yn gallu eich helpu gyda'ch hawliad hefyd.

Efallai bod rhai plant a phobl ifanc heb neb i siarad drostynt. Maen nhw'n gallu cael help gan eiriolydd proffesiynol annibynnol sydd wedi derbyn hyfforddiant fel eiriolydd ac nad yw'n rhan o'ch sefyllfa. Maen nhw'n gallu eich helpu i ddweud wrth oedolion neu wrthyn ni ar eich rhan, beth yr ydych eisiau ei weld yn digwydd.

Rhaid i'ch awdurdod lleol ddweud wrthyhych chi sut i ddarganfod eiriolydd.



FREEPHONE  
080880 23456

[MEICYMRU](#) Gallwch gysylltu hefyd yn rhad ac am ddim gyda meic, y llinell gymorth eiriolaeth a chyngor cyfrinachol 24/7 i blant a phobl ifanc.



# Gallwch ddal i siarad gyda phobl eraill

Os ydych chi'n penderfynu gwneud hawliad gallwch siarad gyda phobl eraill hefyd sydd yn gallu eich helpu:

## Eich ysgol neu awdurdod lleol


- Gallwch siarad gyda phobl yn eich ysgol neu o'r awdurdod lleol. Gallwch ddweud wrthyn nhw pam eich bod yn meddwl bod gwahaniaethu wedi digwydd ac efallai y byddan nhw yn gallu eich helpu i ddatrys yr anghydfod.
- Rhaid i'ch awdurdod lleol chi eich rhoi chi a'ch cyfaill achos, os oes gennych un, mewn cysylltiad â phobl sydd wedi derbyn hyfforddiant arbennig i helpu i ddatrys anghydfod. Mae hyn yn cael ei alw yn wasanaeth datrys anghydfod.

## Cael gwybodaeth am eich achos

- Gallwch gael gwybodaeth am eich achos gan yr ysgol neu awdurdod lleol trwy anfon holiadur atyn nhw. Ffurflen ydy'r holiadur gyda set o gwestiynau. Mae copi o'r ffurflen ar gael ar wefan Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth: [www.equalityhumanrights.com](http://www.equalityhumanrights.com).

## Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (CCHD)

- Efallai y bydd CCHD yn gallu rhoi cyngor ac arweiniad am ddim i chi am wahaniaethu ar sail anabledd a'ch cais. Ffôn 0845 604 8810,
- Os ydych yn defnyddio gwasanaeth cymodi CCHD cyn y terfyn amser o 6 mis ar gyfer gwneud hawliad, efallai y cewch ragor o amser i wneud hawliad. Mae'n bwysig eich bod yn cysylltu gyda ni yn TAAAC i ddweud wrthyn ni am hyn cyn i'r terfyn amser o 6 mis ddod i ben.



## Beth sy'n digwydd nesaf?

**1. Cyfaill achos**  
Gallwch ddednyddio'r  
ffurflen yng nghefn y  
llyfryn i roi enw a  
chyfeiriad eich cyfaill  
achos os oes gennych  
un.

Mae'n cymryd amser hir i orffen y pŵs. Mae'r cyfan yn cymryd tua 5 mis o pan fyddwn yn derbyn eich hawlaid tan y byddwn yn gwneud penderfyniad.

**4. Datganiadau achos**  
Rydym ni yn anfon copi o'r  
holl wybodaeth yr ydym wedi'i  
dderbyn am eich hawlaid  
atoch chi a'ch cyfaill achos  
ac at yr awdurdod lleol.

### 5. Gwrandawriad

Ni sydd yn trefnu Gwrandawriad

Dyma lle rydych chi, eich cyfaill achos a'r awdurdod lleol yn gallu dod i siarad â phobl (y panel Tribiwnlys) o TAAC

Does dim rhaid i chi fynd i'r gwrandawriad. Ond os ydych chi, rhaid i chi dodd â rhywun sydd yn gallu gofalu amdanoch chi rhag ofn eich bod yn penderfynu peidio ag aros am y gwrandawriad.

Mae hawliad fel jigso mawr. Mae llawer o ddarnau gwahanol y mae'n rhaid i ni eu rhoi at ei gilydd er mwyn i ni weld y darlun cyfan.

## 2. Cais hawliad

Rhaid i chi neu eich cyfaill achos, os oes gennych un, lenwi'r Cais Hawliad.



## 3. Cofrestru

Rydyn ni yn anfon copi o'ch hawliad at y corff cyfrifol.

Bydd ganddoch chi a'r corff cyfrifol gyfle i anfon gwybodaeth atom am yr hawliad Os ydy'r corff cyfrifol yn anghytuno gyda'ch hawliad, bydd angen iddo ddweud pam wrthyn ni.



## 6. Penderfyniad

Bydd y panel Tribiwnlys yn gwrandao ar eich ochr chi ac ar ochr yr corff cyfrifol

Yna mae'r panel Tribiwnlys yn gwneud penderfyniad.

Byddwn ni yn ysgrifennu atoch chi i ddweud beth ydy ein penderfyniad.

# 6


**Tribunal Decision**



# Ffurflen dweud wrthym os oes gennych chi gyfail achos

Os ydych yn penderfynu gwneud apêl gallwch:

- Defnyddio'r ffurflen yng nghefn y llyfryn hwn i roi enw a chyfeiriad eich ffrind achos, os oes gennych un. Yna byddwn yn anfon cais hawliad a'r holl wybodaeth am eich hawliad at eich ffrind achos. **NEU**
- Cysylltwch â ni yn TAAAC a gofyn i ni anfon cais hawliad atoch neu lawr lwythwch gais hawliad o'n gwefan.



Llinell  
Gymorth:  
0300 025 9800



Ebost:  
tribunalenquiries  
@cymru.gsi.gov.  
uk



Gwefan:  
[www.taaac.llyw.  
cymru](http://www.taaac.llyw.cymru)



Post:  
TAAAC Adeiliadau  
Llywodraeth  
LD1 5HA

# Nodiadau:

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

# Nodiadau:

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---